LEWIS, DAVID (1828 - 1908), cerddor

Enw: David Lewis
Dyddiad geni: 1828
Dyddiad marw: 1908
Rhiant: Margaret Lewis
Rhiant: Lewis Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Cerddoriaeth
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 12 Tachwedd 1828 yn Hen Dŷ Mawr, Llanrhystyd, Sir Aberteifi, mab Lewis a Margaret Lewis. Yr oedd ei dad yn ganwr da ac yn cynnal ysgolion canu, ac efe a Thomas Jenkins, athro ' Ieuan Gwyllt,' a ddysgodd gerddoriaeth iddo. Yn 10 oed gallai ddarllen cerddoriaeth yn rhwydd, ac yn 15 oed dechreuodd gyfansoddi a chynnal ysgolion canu. Enillodd ei wobr gyntaf am gyfansoddi tôn M.B.D. o dan feirniadaeth ' Tanymarian '; enillodd lawer o wobrwyon wedi hyn o dan feirniaid gorau Cymru. Enillodd ddwy wobr yn eisteddfod genedlaethol Aberdâr, 1868; dwy yn Abertawe, 1868; tair yn Llandudno, 1864; ac un yn Aberystwyth, 1865. Cyhoeddwyd nifer o'i gyfansoddiadau yn *Y Cerddor Cymreig*, *Greal y Corau*, *Y Gerddorfa*, a *Cronicl y Cerddor*.

Cydolygodd â ' Gwilym Gwent ' gasgliad o donau, *Llwybrau Moliant*, at wasanaeth y Bedyddwyr, cynorthwyodd gyda'r casgliad *Caniadau y Cysegr a'r Teulu* (Gee), a bu ganddo law mewn cynorthwyo ynglŷn â phob casgliad o donau wedi hyn. Gwasanaethodd fel beirniad cerddorol ar hyd a lled Cymru. Cyfansoddodd lawer iawn o donau a chafwyd casgliad ohonynt gan J. T. Rees. Treuliodd flynyddoedd olaf ei fywyd yn gwneuthur ymchwil i awduron tonau ac emynau.

Bu farw 6 Hydref 1908, a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Llanrhystyd. Brawd iddo oedd John Lewis ('Eos Glyn Wyre').

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Y Cerddor, 1902 a Tachwedd 1908

Archifau LlGC: NLW MS 8177-8277: Lewis, Llanrhystyd Manuscripts

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732852

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Griffith, R. D., (1953). LEWIS, DAVID (1828 - 1908), cerddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LEWI-DAV-1828

Copïo ir clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government